

Croeso i'n newyddlen sy'n dod â'r diweddaraf i chi gan Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Os hoffech chi gael gwybodaeth bellach am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru.

## SÊL BENDITH I BROSIECT RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH

**Mae prosiect newydd, sy'n ceisio sicrhau bod y sector twristiaeth a lletygarwch yn ein rhanbarth gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y dyfodol, wedi derbyn caniatâd i symud i'r cam cyflawni.**

Bydd y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, yn derbyn £4.43 miliwn o gyllid drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru wedi cymeradwyaeth o'r achos busnes llawn. Mae'r cynllun, fydd â hwb ar Gampws Grŵp Llandrillo Menai yn Llandrillo-yn-Rhos yn cael ei gefnogi gan fusnesau partner sef - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Portmeirion, Snowdonia Hospitality and Leisure Limited a Zip World.



## SECTOR YNNI LLANW YN CYMRYD CAM ARALL YMLAEN

**Daeth hwb pellach i'r prosiect Cydnerth, sy'n rhan o gynllun ynni llanw Morlais Menter Môn oddi ar arfordir Ynys Môn, o dderbyn cymeradwyaeth i fynd ymlaen i'r cam nesaf.**

Bydd y £9m o'r Cynllun Twf, sydd yn rhan o fuddsoddiad ehangach, yn ariannu cysylltiad grid capasiti uwch, gan alluogi Morlais i gyrraedd ei gapasiti cynhyrchu posib o 240MW. Yn ogystal â chynhyrchu ynni carbon isel, nod y prosiect yw creu swyddi newydd a chyfleoedd cadwyn gyflenwi.

Am fwy

## CYNYDD PROSIECT CANOLFAN BIOTECHNOLEG AMGYLCHEDDOL

**Mae buddsoddiad gwerth £2.96m ar gyfer offer a gofod labordy yn y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+ wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.**

Bydd y prosiect, sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Bangor, yn galluogi'r ganolfan i ymchwilio i ensymau unigryw fel opsiwn amgen carbon isel i greu cynhyrchion a phrosesau sydd fel arfer yn tueddu i ddefnyddio cemegau diwydiannol sy'n niweidiol i'r amgylchedd.

Am fwy

# GWELLA DIFFYG CYSYLLTEDD DIGIDOL YNG NGOGLEDD CYMRU

## CYSYLLTEDD DIGIDOL GWLEDIG

Mae ein gwaith i gysylltu cefn gwlad Gogledd Cymru â band eang cyflym iawn, yn parhau i gefnogi unigolion a busnesau ar draws y rhanbarth. Mae'r prosiect Cysylltedd Digidol Gwledig yn cynnig mwy o sesiynau galw heibio am ddim er mwyn rhannu cyngor defnyddiol ar sut i gael y gorau o'ch rhyngrwyd. Dewch o hyd i'r sesiynau yma:

Am fwy

## CYSYLLTEDD DI-WIFR UWCH

Mae prosiect, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio technolegau 'di-wifr uwch' ar draws pob sector yn y rhanbarth wedi symud cam ymlaen, wedi i'r achos busnes amlinellol gael ei gymeradwyo gan Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae ein prosiect Di-wifr Uwch yn cynnig grant gwerth £19m i helpu busnesau preifat a sefydliadau'r sector cyhoeddus i uwchraddio eu systemau, er enghraifft defnyddio 5G i gefnogi cynhyrchiant ac arloesedd.

Am fwy



## CRONFA PARTNERIAETH GYMUNEDOL FFIBR

Fel rhan o'n hymdrechion i wella cysylltedd digidol, rydym hefyd yn tynnu sylw at fanteision rhaglen wedi ei ariannu gan Lywodraeth y DU sef - Cronfa Partneriaeth Gymunedol Ffibr - Openreach.

Gall preswylwyr sy'n byw mewn eiddo cymwys, wneud cais am daleb gwerth hyd at £4,500, tuag at gost o adeiladu'r rhwydwaith. Bydd angen hefyd ymrwymo i uwchraddio i gysylltiad rhyngrwyd cyflymach. Mae cartrefi a busnesau mewn 21 cymuned yn cael eu targedu gyda'r cyfle hwn ar hyn o bryd, yn y lleoliadau isod:

Conwy:
- Cerrigydrudion, Dolgarrog, Dolwen, Llanfairfechan, Llanfairtalhaiarn a Tynygroes

Sir Ddinbych:
- Bodfari, Clawdd Newydd, Glyndwr a Llandyrnog

Sir y Fflint:
- Caerwys

Gwynedd:
- Beddgelert, Fairbourne, Llanbedr, Llandderfel, Llanwnda a Llithfaen.

Wrecsam:
- Glyn Ceiriog

Ynys Môn:
- Bodorgan, Llangoed a Pentraeth

**I gael rhagor o wybodaeth am y Gronfa Partneriaeth Gymunedol Ffibr, cysylltwch â:**
Kiki Rees-Stavros,
07932 016 325 neu kiki@mentermon.com
Erin Thomas,
07485 923 735 neu erin@mentermon.com

# GRYMUSO CENEDLAETHAU'R DYFODOL

## CAFFAEL YN RHOI DAN AR Y FFORDD I LWYDDIANT

Yn ddiweddar, daeth yn amser i ffarwelio â Daniel Powell, myfyriwr Busnes a Rheolaeth ym Mhrifysgol Bangor, â dreuliodd flwyddyn hefo ni ar leoliad gwaith .

Gweithiodd Dan yn bennaf ar gaffael a gwerth cymdeithasol – roedd ei waith yn cynnwys creu, gwirio ac adolygu dogfennau fel contractau a gwahoddiadau i dendro ar gyfer prosiectau Uchelgais Gogledd Cymru. Cafodd hyfforddiant ffurfiol hefyd. Wrth iddo ddychwelyd i'r brifysgol a'i flwyddyn olaf o astudio, rhannodd Dan ei brofiad.

Am fwy




## PROFIAD GWAITH I SAMUEL

Roedden ni'n falch iawn o groesawu Samuel Valentine, disgybl blwyddyn 12 o Ysgol Dyffryn Ogwen, i ymuno â ni ar brofiad gwaith yn ddiweddar. Mae Samuel yn angerddol am gelf ac animeiddio, felly fe gymerodd ran mewn dylunio cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chyfrannu syniadau at ddatblygu gwefan newydd y Portal Sgiliau. Darllenwch fwy am brofiad Samuel yma.

Am fwy



## PORTAL SGILIAU NEWYDD YN AGOS AT LANSIO

Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) yn lansio Portal newydd yn gynnar yn 2025. Bydd y wefan yn cynnwys swyddi gwag a phrentisiaethau, yn ogystal â chyfleoedd cymorth a hyfforddiant i unigolion, busnesau a chyflogwyr yng Ngogledd Cymru.

Fel rhan o'r ymchwil marchnad ar gyfer y Portal, cynhaliodd yr PSRh weithdai gyda phobl ifanc i drafod eu profiadau ar wahanol lwybrau gyrfa, sgiliau trosglwyddadwy a heriau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau gyrfa.

Cadwch lygaid allan am fwy o wybodaeth am y lansiad yn fuan.



## OEDDET TI'N GWYBOD?


Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r holl awdurdodau lleol yn y rhanbarth i ddatblygu cynlluniau cysylltiedig lleol a fydd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac anelu at gyrraedd sero net erbyn 2050.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gydag Arup a'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddatblygu'r cynlluniau sy'n adlewyrchu pob ardal awdurdod lleol ac yn gweithio'n gyson i fod o fudd i'r rhanbarth cyfan.

Bydd camau nesaf yn cynnwys darparu cymorth perthnasol ar gyfer cyflawni'r cynlluniau hyn, yn ogystal â denu buddsoddiad a sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau sero net.

## MAE EIN PROSIECT ADEILADU CYNTAF YN DOD YN FYW

Mae adeiladu'r Ganolfan Menter Peirianneg ac Opteg, a arweinir gan Brifysgol Wrecsam, yn parhau i symud ymlaen yn gyflym a disgwylir iddo agor ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd yr adeilad arloesol yn darparu canolfan arbenigol ar gyfer ymchwil, cydweithredu busnes a datblygu sgiliau mewn opteg, ffotoneg a chyfansoddion fel dewisiadau amgen ysgafn ar gyfer gweithgynhyrchu.



Y canlyniad fydd cynnig cymorth i fusnesau gweithgynhyrchu rhanbarthol i leihau effaith amgylcheddol eu cynhyrchion a'u prosesau. Bydd hefyd yn integreiddio hydrogen fel ffynhonnell tanwydd amgen gan gyfrannu at arferion cynaliadwy mewn diwydiant.





Os hoffech fwy o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru neu ewch i uchelgaisgogledd.cymru.